



Disclosure & Barring Service

Achubwyr bywydau

Awdurdodaeth: Cymru a Lloegr

Achubwyr bywydau mewn pyllau nofio canolfannau hamdden ac ar y traethau

Gall cymhwyster fodoli i achubwyr bywydau gael eu gofyn i geisio am wiriad y DBS.

Oddi wrth y manylion rydym wedi eu derbyn am y rôl (yn seiliedig ar gyfarwyddyd y Gymdeithas Frenhinol Achub Bywydau ac ar y cyd â'r NSPCC), gallwn gynghori y disgwylir i achubwyr bywydau i oruchwyllo defnyddwyr y pwll nofio neu draeth, a fydd yn cynnwys plant. Mae hyn heb ystyried a yw'r plant gydag oedolion.

Oherwydd y disgwyliad hwn, mae achubwyr bywydau'n cynnal gwaith gyda phlant ac maent felly yn gymwys i'w gofyn i geisio am dystysgrif lefel fanwl y DBS yn y gweithlu plant **heb** wiriad o unrhyw restrau gwahardd.

Yn ychwanegol, os yw achubwr bywydau unigol yn cynnal y goruchwyllo hwn yn unol â'r amod cyfnod, h.y. ar fwy na 3 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod, yna maent yn cynnal gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant a fyddai'n gymwys i'w gofyn i geisio am dystysgrif lefel fanwl y DBS **gyda** gwiriad o restr wahardd plant.

Nid oes arwydd bod achubwyr bywydau'n perfformio unrhyw weithgareddau a fyddai'n golygu eu bod yn cynnal gwaith gydag oedolion neu weithgaredd a reoleiddir gydag oedolion. Mae hyn oherwydd nad yw natur benodol yn perthyn i'r meini prawf cyfreithiol. Felly, er eu bod yn gymwys i'w gofyn i geisio am dystysgrif y DBS yn y gweithlu plant gyda gwiriad o'r rhestr wahardd plant mewn amgylchiadau penodol, ni ddylid ceisio am dystysgrifau ar gyfer achubwyr bywydau pyllau nofio a thraeth yn y gweithlu oedolion neu gyda gwiriad o'r rhestr wahardd oedolion.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gywir adeg argraffu. Os ydych angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid y DBS neu ceisiwch gyngor cyfreithiol